Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y pumed adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I'w ddwyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyflwyno i'r Senedd, yn unol ag Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2019

OGL © Hawlfraint y Goron 2019
WG39498 ISBN digidol 978-1-83933-628-7

## Cynnwys


| | tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | 1 |
| **Cyflwyniad** | 2 |
| **Trethi Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru** | 3 |
| **Cyfraddau Treth Incwm Cymru** | 7 |
| **Y gallu i greu treth newydd i Gymru** | 9 |
| **Benthyca** | 11 |
| **Addasiad i'r grant bloc a rhagolygon** | 13 |
| **Atodiad 1: Rheoliadau** | 15 |
| **Atodiad 2: Ymgysylltu** | 16 |
| **Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth** | 19 |
| **Atodiad 4: Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** | 21 |

## Rhagair



Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i weithredu'r pwerau yn Neddf Cymru 2014, gan gynnwys gwaith cydweithredol pwysig gyda Thrysorlys EM a CThEM.

Ar 6 Ebrill 2019, cyflwynwyd yr olaf o'r darpariaethau cyllid yn y Ddeddf, gan nodi diwedd cyfnod arwyddocaol yn hanes datganoli Cymru. Gyda Chyfraddau Treth Incwm Cymru mewn grym, caiff tua £5 biliwn o wariant ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru – gan gynnwys £3.5 biliwn o gyllideb Llywodraeth Cymru ei hun – ei ariannu bellach gan drethi a bennir yng Nghymru, er mwyn diwallu anghenion a blaenoriaethau yng Nghymru.

Nawr bod y tair treth a ddatganolwyd i Gymru mewn grym a bod Awdurdod Cyllid Cymru yn rheoli ac yn casglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ei syniadau ar bolisi trethi a gweinyddu trethi ymhellach, gan gynnwys ein cynigion ar gyfer trethi newydd posibl a allai helpu i gefnogi uchelgeisiau ehangach o ran polisïau yng Nghymru[1].

Mae llawer o bobl wedi ein helpu i gyrraedd y pwynt hwn, ac wedi parhau i roi cymorth. Rwy'n ddiolchgar i'r Cynulliad Cenedlaethol am graffu ar y gwaith o gyflwyno'r darpariaethau ariannol yn y Ddeddf, a hoffwn ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau sydd wedi rhoi cyngor drwy fforymau a chyrff cynghori amrywiol, gan gynnwys Grŵp Cynghorol Trethi Cymru sydd wedi rhoi cymorth amhrisiadwy ers cam cynharaf Bil Cymru yn 2014.



Rebecca Evans AC
Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rhagfyr 2019

[1]Adroddir ar y gwaith hwn yn ein dogfen flynyddol *Adroddiadau ar Bolisi Trethi Cymru:* https://llyw.cymru/trethi-cymru

## Cyflwyniad

O dan adran 23 o Ddeddf Cymru 2014[2], mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wneir o ran gweithredu'r darpariaethau yn Rhan 2, a hynny tan y bydd blwyddyn wedi mynd heibio ers gweithredu'r darpariaethau terfynol. Dyma'r pumed adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 23(7) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol am y darpariaethau ariannol:

*[Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw].*

*(a) A statement of the steps that have been taken, whether by the maker of the report or by others, since the making of the previous report (or, in the case of the first report, since the passing of this Act) towards implementation of the provisions of this Part,*

*(b) A statement of the steps that the maker of the report proposes should be taken, whether by the maker of the report or by others, towards the implementation of the provisions of this Part,*

*(c) An assessment of the operation of the provisions of this Part that have been implemented,*

*(d) An assessment of the operation of any other powers to devolve taxes to the Assembly or to change the powers of the Welsh Ministers to borrow money, and of any other changes affecting the provisions inserted or amended by this Part,*

*(e) A statement of the effect of this Part on the amount of any payments made by the Secretary of State under section 118 of GOWA 2006 (payments into the Welsh Consolidated Fund), and*

*(f) Any other matters concerning the sources of revenue for the Welsh Government that the maker of the report considers should be brought to the attention of Parliament or the Assembly.*

Nid yw'n ofynnol i'r adroddiadau fynd i'r afael â'r adrannau canlynol o Ddeddf Cymru 2014 – adran 10 (Trethdalwyr Cymru at ddibenion nawdd cymdeithasol neu gynnal plant); adran 11 (Diwygiadau i'r diffiniad o drethdalwyr o'r Alban) ac adran 22 (Gweithdrefnau cyllidebol).

Disgwylir i'r adroddiadau gael eu cyhoeddi bob blwyddyn, a hynny cyn pen blwyddyn i'r diwrnod y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol – 17 Rhagfyr 2014. Bydd disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi flwyddyn ar ôl y diwrnod y bydd yr olaf o'r darpariaethau yn Rhan 2 yn cael ei gweithredu, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl wedi hynny.

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

## Trethi Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru

*Treth Trafodiadau Tir*

Mae adran 15 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar gyfer treth ar drafodiadau sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir yng Nghymru. Mae adran 16 ac atodlen 2 yn diwygio deddfwriaeth y DU i ddiddymu Treth Dir y Dreth Stamp yn y DU mewn perthynas â Chymru. Mae adran 17 yn ymwneud â darparu gwybodaeth am drafodiadau tir yng Nghymru i CThEM.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014), hefyd yn datgan y byddai Treth Dir y Dreth Stamp yn 'dirwyn i ben' o fis Ebrill 2018[3].

*Treth Gwarediadau Tirlenwi*

Mae adran 18 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar gyfer treth ar warediadau tirlenwi yng Nghymru. Mae adran 19 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Cyllid 1996 i ddiddymu Treth Dirlenwi y Deyrnas Unedig mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014), hefyd yn datgan y byddai'r Dreth Dirlenwi yn 'dirwyn i ben' o fis Ebrill 2018.

Defnyddiodd y Trysorlys y pwerau yn adrannau 16 a 19 o Ddeddf Cymru 2014 i orchymyn[4] bod Treth Dir y Dreth Stamp a Threth Gwarediadau Tirlenwi y DU yn cael eu diddymu yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018.

### Trethi Cymru

1. Ar 1 Ebrill 2018, daeth Deddfau Trethi Cymru[5] i rym a dechreuodd Awdurdod Cyllid Cymru gasglu'r ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn i Gymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

2. Cyhoeddwyd y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o broses Cyllideb 2018-19. Cytunwyd ar y rheoliadau i ddod â chyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir i rym gan Gynulliad Cymru ar 30 Ionawr 2018, a byddant yn parhau mewn grym hyd nes y cânt eu diwygio[6]. Ni chyhoeddwyd unrhyw newidiadau yn ystod proses Cyllideb 2019-20.

---

[3] *Bil Cymru: atebolrwydd a grymuso ariannol,* Cm 8838, para 16: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf
[4] Deddf Cymru 2014, Adrannau 16 a 19 (Diddymu Treth Dir Treth Stamp y DU a Threth Dirlenwi y DU) (Dyddiad Penodedig) Gorchymyn 2018 (O.S. 2018/214).
[5] Mae Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys: Deddf Casglu a Rheoli Treth (Cymru) 2016; Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017; a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.
[6] Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128).

**Tabl un: Prif gyfraddau preswyl TTT 2019-20**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---|
| £0 i £180,000 | 0% |
| Dros £180,000 i £250,000 | 3.5% |
| Dros £250,000 i £400,000 | 5% |
| Dros £400,000 i £750,000 | 7.5% |
| Dros £750,000 i £1,500,000 | 10% |
| Mwy nag £1.5m | 12% |

Bydd trafodiadau eiddo preswyl cyfradd uwch yn destun 3% ychwanegol ar ben y brif gyfradd breswyl ym mhob band.

**Tabl dau: Prif gyfraddau dibreswyl TTT 2019-20**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---|
| £0 i £150,000 | 0% |
| Dros £150,000 i £250,000 | 1% |
| Dros £250,000 i £1,000,000 | 5% |
| Mwy na £1m | 6% |

**Tabl tri: Cyfraddau rhent les dibreswyl TTT 2019-20**

| Trothwy prisiau | Cyfradd TTT |
|---|---|
| £0 i £150,000 | 0% |
| Dros £150,000 i £2,000,000 | 1% |
| Mwy na £2m | 2% |

3. Caiff y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer 2020-21 eu cyhoeddi fel rhan o Gyllideb ddrafft 2020-21 (y bwriedir iddi gael ei chyhoeddi ar 16 Rhagfyr 2019).

4. Cyhoeddwyd y cyfraddau cychwynnol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gan Lywodraeth Cymru fel rhan o broses Cyllideb 2018-19. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn unol â chwyddiant yn 2019-20, er mwyn bod yn gyson â'r modd y mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â chyfraddau Treth Tirlenwi. Cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol ar y rheoliadau a fyddai'n pennu cyfraddau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2019-20 ar 8 Ionawr 2019.

**Tabl pedwar: Cyfraddau TGT, £ fesul tunnell**

| Trothwy prisiau | |
|---|---|
| Cyfradd safonol | £91.35 |
| Cyfradd is | £2.90 |
| Cyfradd gwarediadau anawdurdodedig | £137.00 |

5. Caiff y cyfraddau ar gyfer 2020-21 eu cyhoeddi fel rhan o Gyllideb ddrafft 2020-21.

6. Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am ffurflenni treth a'r refeniw a godir drwy drethi Cymru yn rheolaidd[7]. Alldro blynyddol blwyddyn ariannol 2018-19 ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir oedd £228m, ac mae £44.4m o refeniw yn ddyledus i Awdurdod Cyllid Cymru o ganlyniad i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2018-19, fel y'i cyhoeddwyd yng nghyfrifon cyhoeddus yr Awdurdod[8].

7. Bu Bwrdd Rhaglen Datganoli Trethi, a arweiniwyd gan CThEM ac a oedd yn cynnwys Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru a Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Drethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu, yn goruchwylio'r broses o drosglwyddo o Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi i'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, yn y drefn honno (bu'r bwrdd hefyd yn goruchwylio prosiect Cyfraddau Treth Incwm Cymru – gweler paragraff 18). Mae Bwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi yn pennu llwybr i ddatrys heriau ar lefel prosiect, ac mae'n goruchwylio'r broses o bontio i drefniadau busnes fel arfer o ran perthynas Llywodraeth Cymru â CThEM.

8. Daeth Prosiect Pontio Treth Dir y Dreth Stamp/y Dreth Dirlenwi i ben ym mis Mawrth 2019. Mae CThEM wedi cadarnhau bod ad-daliad blynyddol gwerth £172,473 yn ddyledus i Lywodraeth Cymru am beidio â gweithredu Treth Dir y Dreth Stamp na'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru mwyach.

9. Rhestrir y rheoliadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn Atodiad 1.

**Awdurdod Cyllid Cymru**

10. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Awdurdod Cyllid Cymru ar 2 Ebrill 2019 yn nodi'r ffordd yr oedd yn disgwyl i'r Awdurdod gael ei weithredu yn ystod y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22. Mae Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2019-22 yn adlewyrchu'r disgwyliadau cydategol hyn ac yn nodi ym mha ffordd y caiff pob un ei fodloni. Mae'r llythyr cylch gwaith yn amlinellu'r blaenoriaethau canlynol:

- Datblygiad parhaus yr Awdurdod – adeiladu ar gyflawniadau'r Awdurdod ac edrych ymlaen at y tymor hwy;

- Cyflawni canlyniadau – datblygu cyfres o fesurau perfformiad gweithredol er mwyn nodi pa mor effeithiol y mae'r system drethi yn gweithio yng Nghymru;

- Gwarediadau Anawdurdodedig – y dylai'r Awdurdod dargedu adnoddau mewn perthynas â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar achosion sy'n mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol ac sy'n rhoi busnesau tirlenwi cyfreithlon o dan anfantais.

11. Cyhoeddwyd cynllun corfforaethol tair blynedd cyntaf yr Awdurdod ar 14 Mai 2018[9]. Gosodir y cynllun yng nghyd-destun diben y sefydliad:

---

[7] Y data diweddaraf ar y dreth trafodiadau tir:
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir
Data ar y dreth gwarediadau tirlenwi:
https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi

[8] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Awdurdod Cyllid Cymru 2017-19:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2017-2019-cy.pdf

[9] Cynllun Corfforaethol Awdurdod Cyllid Cymru 2019-22:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cynllun-corfforaethol-awdurdod-cyllid-cymru-2019-2022.pdf

- Cynllunio a darparu gwasanaethau cyllid cenedlaethol i Gymru;
- Arwain y gwaith o ddefnyddio data trethdalwyr Cymru'n well er mwyn Cymru.

12. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i helpu i gyflwyno system drethi deg i Gymru. Mae'n gwneud hyn drwy *'Ein Dull o Weithredu'* – ffordd Gymreig o drethu. Mae'r cynllun corfforaethol yn cynnwys astudiaethau achos sy'n dangos sut mae'r dull hwn o weithredu yn gweithio.

13. Mae'r cynllun corfforaethol yn cynnwys chwe amcan strategol sy'n adlewyrchu'r disgwyliadau a nodir yn llythyr cylch gwaith y Gweinidog, ac mae'n canolbwyntio ar helpu trethdalwyr i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir:
    - Gwneud pethau'n haws;
    - Sicrhau ein bod yn deg;
    - Bod yn fwy effeithlon;
    - Ehangu ein gallu.

14. Mae'r cynllun yn cynnwys dau amcan arall sy'n cydnabod y cyfraniad ehangach y gall arbenigedd yr Awdurdod ei wneud i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sef cyfrannu at ddyluniad gwasanaethau cyllid Cymru a manteisio i'r eithaf ar ddata trethdalwyr Cymru.

15. Cyhoeddodd yr Awdurdod ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon cyntaf ar 4 Gorffennaf 2019[10].

[10] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Awdurdod Cyllid Cymru 2017-19: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2017-2019-cy.pdf

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru

Mae adrannau 8 i 11 o Ddeddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol yng Nghymru i'w pennu gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy benderfyniad, ac yn rhoi diffiniad pellach o "drethdalwyr Cymru".

Pan gafodd Deddf Cymru 2014 ei deddfu gyntaf, roedd yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm a oedd i'w gynnal yng Nghymru ynghylch p'un a ddylai'r darpariaethau treth incwm a bennwyd yn y Ddeddf ddod i rym ai peidio. Yn dilyn hynny, cafodd y darpariaethau hyn mewn perthynas â refferendwm eu dileu gan adran 17 o Ddeddf Cymru 2017[11].

Cadarnhaodd fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016, y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn ystod 2019-20, a hynny'n amodol ar ddileu'r gofyniad am refferendwm.

16. Cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019. Ar gyfer incwm nad yw'n deillio o ddifidend na chynilion, penderfynodd Llywodraeth y DU dynnu 10c oddi ar y tair cyfradd treth incwm – cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol – a delir gan drethdalwyr Cymru[12]. Ar 15 Ionawr 2019, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol â chynnig Llywodraeth Cymru i bennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2019-10 ar 10c, er mwyn sicrhau bod y cyfraddau Treth Incwm a delir gan drethdalwyr Cymru yr un peth â'r rheini a delir gan drethdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon[13].

17. Mae CThEM yn parhau i fod yn gyfrifol am gasglu a rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Yn nhermau cyfreithiol a chymhwysedd, bydd y dreth hon yn parhau yn dreth y DU, felly hefyd drefniadau cysylltiedig ar gyfer lwfansau a rhyddhadau (gan gynnwys y lwfans personol), a'r trothwyon a'r bandiau treth. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gadw'r refeniw sy'n deillio o Dreth Incwm ar gynilion ac incwm difidend gan drethdalwyr yng Nghymru.

18. Cafodd y gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru ei oruchwylio gan Fwrdd Prosiect Traws-lywodraethol Cyfraddau Treth Incwm Cymru, gan weithredu o dan Fwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CThEM a Thrysorlys EM. Mae Bwrdd y Prosiect yn parhau i weithredu ac yn parhau i gwrdd bob mis i fonitro cynnydd. Bu Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn adolygu'r gwaith paratoi yn ystod y misoedd cyn cyflwyno'r cyfraddau a daethpwyd i'r casgliad bod gan CThEM drefniadau cyflwyno a llywodraethu priodol ar gyfer rhoi Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar waith[14].

[11] Cafodd Deddf Cymru 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

[12] Diffinnir trethdalwyr Cymru yn adran 8 o Ddeddf Cymru 2014 (Cyfraddau Treth Incwm Cymru). Fodd bynnag, byddant fel arfer yn bobl sy'n preswylio yng Nghymru: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

[13] Gwnaed y cynnig i bennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar gyfer 2019-20 ar 10c, ar gyfer y gyfradd sylfaenol, y gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol, gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: https://record.assembly.wales/Plenary/5417#A47984

[14] Adroddiadau ar y gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru gan Swyddfa Archwilio Cymru (Rhagfyr 2018) a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Ionawr 2019): https://www.audit.wales/cy/newyddion/cymru-gweithio-dda-i-weithredu-datganoli-cyllidol

19. Yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, nododd CThEM nad oedd rhai cyflogwyr wedi defnyddio'r cod ('C') cywir ar gyfer Cymru a bod rhai wedi defnyddio'r cod anghywir, sef cod 'S' ar gyfer yr Alban. Mewn nifer fach o achosion, golygai nad oedd digon o dreth wedi'i thalu neu fod gormod o dreth wedi'i thalu (nid oedd hyn yn fwy na £10 i'r mwyafrif). Galwodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd am gyfarfod brys gyda swyddogion CThEM i ddeall pam bod hyn wedi digwydd ac i gytuno ar y mesurau y dylai CThEM eu cymryd i ddatrys y sefyllfa. Digwyddodd y gwall am nad oedd cyflogwyr wedi defnyddio'r codau cywir a roddwyd gan CThEM. Ymhlith y camau gweithredu a gymerwyd gan CThEM roedd sganio data cyflogres Talu Wrth Ennill (TWE) mis Ebrill, ac ymgymryd â gwaith pellach gyda chyflogwyr i sicrhau eu bod yn defnyddio'r codau cywir. Cyhoeddodd y Gweinidog Ddatganiad Ysgrifenedig ar 14 Mai a oedd yn rhoi manylion i Aelodau'r Cynulliad[15]. Cymerodd CThEM gamau gweithredu uniongyrchol i ddatrys unrhyw gamgymeriadau o ran swm y dreth a dalwyd drwy ei broses cysoni safonol ar gyfer TWE. Mae CThEM wedi cadarnhau bod pob achos o ddefnyddio'r cod 'S' yn anghywir wedi'i ddatrys. Mae CThEM yn parhau i weithio gyda chyflogwyr a sefydliadau'r gyflogres i sicrhau bod y codau 'C' yn cael eu defnyddio'n gywir.

20. Mae'r prosiect i gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn tynnu at ei derfyn. Mae'r gwaith o baratoi systemau TWE CThEM wedi'i gwblhau. Mae rhai camau sydd heb eu cymryd o hyd mewn perthynas â systemau hunanasesu papur ac ar-lein, ond gwneir hynny yn barod ar gyfer y flwyddyn dreth nesaf.

21. Mae cytundeb lefel gwasanaeth ar waith ar gyfer rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn nodi'r gofynion, yr amserlenni a'r mesurau perfformiad ar gyfer eu gweithredu, a fydd yn sicrhau gwasanaeth o ansawdd cyson i drethdalwyr Cymru ac yn galluogi CThEM a Llywodraeth Cymru i gyflawni eu priod gyfrifoldebau mewn perthynas â gweithredu Cyfraddau Treth Incwm Cymru.

22. Mae Bwrdd Prosiect Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn dal i weithredu a bydd yn parhau i weithredu nes bod yr holl waith gweithredu wedi'i gwblhau a bod y costau terfynol wedi'u cytuno. Mae'r bwrdd yn parhau i gyfarfod bob mis i adolygu cynnydd. Yn wreiddiol, amcangyfrifwyd y byddai costau gweithredu rhwng £5m a £10m ond, wrth i'r prosiect fynd rhagddo, mae'r amcangyfrif wedi'i fireinio i rhwng £7.5m a £9.5m. Amcangyfrifir y bydd y costau gweithredu yn £319,000 y flwyddyn. Mae'r costau rhedeg yn seiliedig ar y swm lleiaf o waith y mae angen i CThEM ei wneud yn flynyddol mewn perthynas â Chyfraddau Treth Incwm Cymru, fel sicrhau bod gwybodaeth am y swm a delir gan drethdalwyr yn cael ei hadlewyrchu yn y crynodeb treth blynyddol.

23. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi Cyfraddau Treth Incwm arfaethedig Cymru ar gyfer 2020-21 yn y Gyllideb ddrafft, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ar 16 Rhagfyr 2019.

---

https://www.nao.org.uk/report/administration-of-welsh-income-tax-2017-18/

[15] Datganiad Ysgrifenedig:
https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyfraddau-treth-incwm-yng-nghymru

## Y gallu i greu treth newydd i Gymru

Mae adran 6 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn gallu creu trethi datganoledig newydd lle bydd Ei Mawrhydi yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Ni ellir gwneud argymhelliad i Ei Mawrhydi wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor tan y bydd drafft o'r offeryn statudol, sy'n cynnwys y Gorchymyn, yn cael ei osod gerbron dau Dŷ Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â'i gymeradwyo ganddynt. Gallai'r rhain fod yn drethi cyfredol y DU y mae Llywodraeth y DU yn eu datganoli i Gymru, neu'n drethi sydd newydd gael eu creu gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb wedi cael ei ddatganoli.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014) yn rhoi rhagor o fanylion am y modd y byddai cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi newydd, yn y lle cyntaf, yn cael eu hasesu gan Lywodraeth y DU[16].

24. Mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i bedwar syniad newydd o ran trethi: Treth ar Dir Gwag, Treth ar Ddeunydd Plastig Untro, Treth ar Dwristiaeth, a threthiant fel ffordd o ariannu gofal cymdeithasol[17]. Mae'r Dreth ar Dir Gwag yn cael ei defnyddio i brofi'r mecanwaith rhynglywodraethol ar gyfer cyflwyno trethi newydd, tra bod gwaith yn mynd rhagddo ar y tri syniad arall[18].

### Y Dreth ar Dir Gwag a'r broses rynglywodraethol ar gyfer trethi newydd

25. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol i gytuno ar y modd y dylid rheoli'r broses o ddatganoli cymhwysedd ar gyfer treth newydd. Ar 26 Ionawr 2018, cytunodd Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM ar broses lle bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig, a Llywodraeth y DU yn ei ystyried, cyn y caiff Gorchymyn drafft ei ystyried gan ddau Dŷ'r Senedd[19]. Caiff y broses ei llywodraethu gan Gyd-bwyllgor y Trysorlys, a hynny dan arweiniad y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar ran Llywodraeth Cymru, a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar ran Llywodraeth y DU. Caiff y Cyd-bwyllgor ei gefnogi gan grŵp o swyddogion o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

### Talu am ofal cymdeithasol

26. Caiff ystyriaethau'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol, a gadeirir gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, eu llywio gan yr ymrwymiad i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwaith ataliol a sefydlwyd gan Ddeddf

---

16 Papur Gorchymyn Bil Cymru 'Atebolrwydd a grymuso ariannol', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014: https://www.gov.uk/government/publications/wales-bill

17 Datganiad y Cabinet am y syniadau trethi newydd (13 Chwefror 2018): https://llyw.cymru/datganiad-llafar-cynllun-gwaith-polisi-treth-2018-gan-gynnwys-trethi-newydd

18 Darperir rhagor o fanylion am y dreth ar dir gwag a syniadau newydd eraill o ran trethi yn *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018,* Llywodraeth Cymru (Hydref 2018), tudalen 18: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018.pdf
Caiff rhagor o wybodaeth ei chyhoeddi yn Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2019, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi law yn llaw â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, ar 16 Rhagfyr 2019.

19 Ceir rhagor o fanylion yn *Y pedwerydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014*, Rhagfyr 2018: https://llyw.cymru/rhan-2-cyllid-deddf-cymru-2014-adroddiad-blynyddol-2018

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, *Cymru Iachach*; a'r weledigaeth ar gyfer gwasanaeth di-dor i ddinasyddion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Grŵp wedi rhoi pwyslais cynyddol ar ymgysylltu a chyfathrebu strategol, er mwyn helpu i feithrin consensws ynghylch yr agenda drawsbynciol hon. Yn ôl arolwg omnibws cyfnodol Llywodraeth Cymru ar ofal cymdeithasol, er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr (70%) yn poeni ynghylch eu hanghenion gofal yn y dyfodol, dim ond chwarter (27%) ohonynt oedd yn teimlo eu bod yn gwybod cryn dipyn am y system gofal cymdeithasol yng Nghymru[20]. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos pa mor bwysig yw ymgysylltu a chyfathrebu strategol i'r Grŵp.

27. Arweiniodd Cadeirydd y Grŵp Rhyngweinidogol ddadl yn y Cynulliad[21] yn gynharach yn y flwyddyn lle nodwyd maint yr her sydd ynghlwm wrth dalu am ofal cymdeithasol; her gyffredin ond dybryd sy'n wynebu pob un o wledydd y DU. Dangosodd y ddadl fod consensws cryf yn y Siambr bod angen blaenoriaethu'r agenda hon, gydag Aelodau'r Cynulliad yn cytuno i raddau helaeth fod ansawdd y gofal a roddir i bobl, a thâl ac amodau gwell i weithwyr gofal cartref, yn feysydd lle mae angen sicrhau canlyniadau gwell. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad arall ym mis Gorffennaf ar y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu sail dystiolaeth y gall y Grŵp Rhyngweinidogol ei defnyddio i lywio ei ystyriaethau[22].

### Treth ar ddeunydd plastig untro

28. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â deunydd plastig a gwastraff diangen, gan gydnabod y manteision sydd ynghlwm wrth fabwysiadu dull cyson o weithredu ledled y DU. Mae hyn wedi cynnwys cefnogi ymgyngoriadau ar dreth ar ddeunydd pecynnu plastig yn y DU, ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr o ran deunydd pecynnu a chynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd.

29. Ym mis Ebrill 2019, arweiniodd Llywodraeth Cymru, WRAP Cymru a Thrysorlys EM ddigwyddiadau ymgysylltu gyda'r nod o annog rhanddeiliaid yng Nghymru i leisio eu barn. Ym mis Gorffennaf 2019, cymerodd manwerthwyr, gwneuthurwyr a rhanddeiliaid eraill ran mewn gweithdy ar gwpanau plastig untro yng Nghymru, fel rhan o gynhadledd flynyddol Llywodraeth Cymru ar drethi.

### Treth ar dwristiaeth

30. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cynnydd ac yn ystyried enghreifftiau, ar lefel ryngwladol ac o fewn y DU, o'r ffordd y mae trethi ar dwristiaeth yn gweithio yn ymarferol a'u heffeithiau posibl. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector twristiaeth ac awdurdodau lleol i ddeall effeithiau posibl treth leol ar dwristiaeth. Ymhlith y materion sy'n cael eu hystyried mae'r rhyngweithio â Threth ar Werth ar lety i dwristiaid, pwysau rheoleiddiol a threthi lleol eraill.

---

[20] Mae canlyniadau'r arolwg ar gael yn: https://llyw.cymru/talu-am-ofal-ymchwil-mawrth-2019

[21] Mae'r trawsgrifiad o'r ddadl ar gael yn: https://record.assembly.wales/Plenary/5409#A47597

[22] Mae Datganiad Cabinet y Gweinidog Iechyd sy'n cynnwys y diweddariad ar gael yma: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-diweddaraf-am-waith-y-grwp-rhyngweinidogol-ar-dalu-am-ofal-cymdeithasol

## Benthyca

Gwnaeth adrannau 20 a 21 o Ddeddf Cymru 2014 ddiddymu'r pŵer benthyca o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, ac estyn pŵer benthyca Gweinidogion Cymru o dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a hynny o 1 Ionawr 2017. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca hyd at £500 miliwn i reoli llif arian (er mwyn lliniaru amrywiadau mewn derbynebau treth a mynd i'r afael â diffyg cyfatebiaeth dros dro rhwng treth a gwariant) ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Trysorlys EM, hyd at £500 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf.

*Benthyca Cyfalaf*

- O fewn y terfyn o £500 miliwn ar gyfer benthyca cyfalaf, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn;
- Dim ond o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (drwy Lywodraeth y DU) neu gan fanciau masnachol y gellir benthyca cyfalaf;
- Hyd nes y bydd y pwerau benthyca cyfalaf newydd yn dod i rym (a gynllunnir ar gyfer mis Ebrill 2018), gall Llywodraeth Cymru fenthyca o dan Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 er mwyn ariannu gwelliannau i'r M4 yn Ne-ddwyrain Cymru;
- Bydd Llywodraeth y DU yn adolygu terfyn uchaf Llywodraeth Cymru ar gyfer benthyca cyfalaf yn ystod pob Adolygiad o Wariant, a hynny yn sgil amgylchiadau economaidd a chyllidol, yn ogystal â lefel y trethiant datganoledig.

*Benthyca Refeniw*

- O fewn y terfyn o £500 miliwn ar gyfer benthyca refeniw, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £200 miliwn y flwyddyn;
- Bydd cronfa arian parod newydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i reoli ansefydlogrwydd drwy ddarparu ffordd o arbed 'refeniw dros ben', (er enghraifft derbynebau treth sy'n uwch na'r disgwyl). Yr alwad gyntaf o ran gwarged fydd ad-dalu unrhyw arian sydd wedi'i fenthyca ar y pryd, ac, ar ôl hynny, gallai unrhyw arian sy'n weddill gael ei dalu i gronfa arian parod neu ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyhoeddus ychwanegol ar fater datganoledig.

Ym mis Chwefror 2015, yn dilyn trafodaethau rhynglywodraethol a thrawsbleidiol, cytunodd Llywodraeth y DU i estyn pwerau benthyca Llywodraeth Cymru i gynnwys dyroddi bondiau[23].

Diwygiodd Deddf Cymru 2017 adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i godi terfyn benthyca cyfalaf Gweinidogion Cymru o £500 miliwn i £1 biliwn.

[23] Papur Gorchymyn *Pwerau at bwrpas: tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru* (Cm 9020), 27 Chwefror 2015, pennod 4, tudalen 51: https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

**Benthyca cyfalaf**

31. O dan y fframwaith cyllidol, y cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU arno ym mis Rhagfyr 2016, cynyddodd y terfyn benthyca cyfalaf blynyddol o £125 miliwn i £150 miliwn pan gyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru ym mis Ebrill 2019.

32. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei phwerau newydd i fenthyca am y tro cyntaf yn 2018-19. Benthycwyd £65 miliwn oddi wrth y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol er mwyn cefnogi gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn honno. Bydd cynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf yn defnyddio hyd at £250 miliwn arall o fenthyciadau cyfalaf yn ystod y ddwy flynedd nesaf (£125 miliwn y flwyddyn yn 2019-20 a 2020-21). Bydd y £50 miliwn sy'n weddill (£25 miliwn y flwyddyn yn 2019-20 a 2020-21) yn cael ei gadw wrth gefn.

33. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r defnydd o fenthyca cynlluniedig yn ystod pob cyfnod cyllidebol, a bydd ond yn cael ei ddefnyddio pan fydd pob ffynhonnell gonfensiynol, ratach o gyllid cyfalaf sydd ar gael wedi cael ei disbyddu.

34. Mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru[24], cyflwynodd Llywodraeth y DU Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Amrywio Pŵer Benthyca) 2018, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2018.

**Benthyca refeniw a Chronfa Wrth Gefn Cymru**

35. Oherwydd methodoleg y gwrthbwysiad i'r grant bloc y cytunwyd arni ar gyfer treth incwm fel rhan o'r fframwaith cyllidol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r terfyn benthyca refeniw o £500 miliwn a ddarperir gan Ddeddf Cymru 2014 fod yn ddigonol i gwmpasu amrywiadau yn y ffrwd refeniw sy'n deillio o bwerau trethu datganoledig.

36. Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018, gan olygu bod modd i adnoddau heb eu disbyddu o dderbynebau treth a'r grant bloc gael eu storio ar gyfer y dyfodol. Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cael ei chapio ar £350 miliwn a, bob blwyddyn, mae'n bosibl tynnu £125 miliwn i lawr ar gyfer gwariant refeniw a £50 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes unrhyw derfynau blynyddol ar daliadau i'r gronfa wrth gefn.

37. O 1 Ebrill 2019, roedd £328.6 miliwn ar gael yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i gefnogi gwariant gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

[24] Datganiad y Cabinet ynghylch bondiau Llywodraeth Cymru (Hydref 2018): https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-bondiau-llywodraeth-cymru

## Addasiad i'r grant bloc a rhagolygon

### Addasiad i'r grant bloc

38. Fel rhan o'r fframwaith cyllidol, cytunwyd ar y methodolegau ar gyfer addasu grant bloc Cymru yn dilyn datganoli pwerau trethu[25]. Roedd yr addasiad ar gyfer 2018-19, a oedd yn ymwneud â chyflwyno'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ynghyd â dod â Threth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Tirlenwi i ben yng Nghymru, yn seiliedig ar y rhagolygon yng nghyhoeddiad *Economic and Fiscal Outlook* (Hydref 2018) y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol[26]. Mae gwybodaeth alldro bellach ar gael ar gyfer trethi perthnasol y DU, felly gellir cynnal ymarfer cysoni nawr ar gyfer 2018-19, fel y nodwyd yn y fframwaith cyllidol. Mae'r addasiadau ar gyfer 2019-20 yn seiliedig ar yr un rhagolwg ar hyn o bryd, gan gynnwys yr hyn a fydd yn cyd-fynd â'r broses o gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru. Bydd yr addasiad treth incwm yn cael ei osod yn gyfartal â'r refeniw o gyfraddau Cymru yn y flwyddyn drosiannol gyntaf hon. Bydd y rhai ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn cael eu diwygio pan fydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyhoeddi ei hadroddiad ar ragolygon ar gyfer trethi datganoledig i gyd-fynd â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21.

39. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith dadansoddol i ganfod sut mae ymddygiad rhagbrynu wedi effeithio ar refeniw o Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Trafodiadau Tir yn ystod y cyfnod pontio. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrthi'n trafod i ba raddau y dylai'r addasiad i'r grant bloc ganiatáu effaith ymddygiadol o'r fath. Fel effaith ymddygiadol orlifol untro datganoli trethi i Gymru, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r addasiad i'r grant bloc gael ei ailgyfrifo er mwyn ystyried effaith rhagbrynu.

40. Fel y nodir yn y fframwaith cyllidol, gan fod Llywodraeth Cymru yn pennu Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar 10c ar gyfer 2019-20 (sy'n gyfwerth â'r gostyngiad a wneir gan Drysorlys EM), bydd yr addasiad i grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yn gyfartal â'r derbynebau.

### Rhagolygon

41. Fel rhan o gytundeb y fframwaith cyllidol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno trefniadau ar gyfer llunio rhagolygon refeniw annibynnol ar gyfer trethi datganoledig. Yn y byrdymor, cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn llunio ei rhagolygon sicrwydd annibynnol ei hun, tra bod trefniadau mwy hirdymor yn cael eu rhoi ar waith.

42. Rhoddodd Ysgol Busnes Bangor sicrwydd annibynnol o ran rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer refeniw o'r Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Chyfraddau Treth Incwm Cymru fel rhan o broses Cyllideb 2019-20. Cyhoeddwyd adroddiad craffu a sicrhau annibynnol ochr yn ochr â'r Gyllideb derfynol[27].

43. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drefniant gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ddarparu rhagolygon refeniw trethi Cymru ar gyfer Cyllideb 2020-21 a thu

[25] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cytundeb-ar-fframwaith-cyllidol-llywodraeth-cymru.pdf
[26] https://cdn.obr.uk/EFO_October-2018.pdf
[27] Mae dogfen Prifysgol Bangor, *Gwaith craffu a sicrhau annibynnol ar ragolygon trethi datganoledig i Gymru, adroddiad terfynol* (Rhagfyr 2018) ar gael fel dogfen ategol yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/adroddiad-terfynol-rhagfyr-2018.pdf

hwnt. Dechreuodd y trefniant newydd gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Ebrill 2019 ac mae dogfennau ategol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Swyddfa[28].

44. I gefnogi'r gwaith o gyflawni Cyllideb Llywodraeth Cymru, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn llunio dau adroddiad. Bydd y rhain yn cynnwys rhagolygon ar gyfer trethi Cymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ynghyd â Chyfraddau Treth Incwm Cymru a fydd yn seiliedig ar ragolygon macro-economaidd diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, ac unrhyw ddata penodol sy'n berthnasol i Gymru. Bydd rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn ystyried unrhyw newidiadau ym mholisi trethi Llywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a'r Gyllideb derfynol.

45. At hynny, fel rhan o'r trefniadau newydd, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi dod yn fwy amlwg yng Nghymru drwy ymgysylltu'n fwy helaeth â sefydliadau ac unigolion â buddiant. Cyfarfu Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol â'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, a'r Pwyllgor Cyllid, ym mis Mehefin 2019. Rhoddodd cynrychiolwyr o'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol gyflwyniadau hefyd yng nghynhadledd Llywodraeth Cymru ar drethi a chynhadledd gyllidol Canolfan Llywodraethiant Cymru ym mis Gorffennaf 2019.

[28] Rhagolygon trethi Cymru, rôl graffu:
https://obr.uk/topics/scotland-wales-and-northern-ireland/welsh-tax-forecasts/

## Atodiad 1: Rheoliadau

Offerynnau statudol a luniwyd rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Rhagfyr 2019.

Lluniwyd o dan bwerau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

1. Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2018

2. Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhadau) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

Lluniwyd o dan bwerau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

1. Rheoliadau Deddfau Trethi Cymru (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019[29]

[29] Gwnaed y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau yn Neddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf yr Unedau Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

## Atodiad 2: Ymgysylltu

### Grŵp Cynghorol Trethi Cymru

Sefydlwyd Grŵp Cynghorol Trethi Cymru i roi cyngor strategol i Weinidogion Cymru ar bolisi trethi a systemau gweinyddu trethi, ac i ystyried yr effaith ar gymunedau a busnesau yng Nghymru, yn ystod y gwaith o baratoi ar gyfer cyflwyno trethi yng Nghymru a'u rhoi ar waith. Mae ei aelodau wedi cynrychioli amrywiaeth eang o safbwyntiau ac arbenigedd, ac mae wedi'i gadeirio gan Weinidogion Cyllid olynol ac, yn fwyaf diweddar, gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Yn sgil cyflwyniad llwyddiannus Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn 2019, yn dilyn y broses o gyflwyno'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn 2018, a'r broses o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru yn 2017, mae gwaith Grŵp Cynghorol Trethi Cymru wedi'i gwblhau. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yr opsiynau ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol ac ar gyfer cael cyngor.

*Cylch gwaith Grŵp Cynghorol Trethi Cymru*

- Rhoi cyngor a chymorth o ran datblygu polisi trethi a systemau gweinyddu trethi yng Nghymru;
- Rhoi cyngor ar effaith ehangach polisi trethi Cymru ar randdeiliaid, yn ogystal ag ar yr economi a gwead cymdeithasol Cymru;
- Helpu i wella arferion cyfathrebu ymhlith amrywiaeth o randdeiliaid mewn perthynas â pholisi trethi a systemau gweinyddu trethi er mwyn cyfrannu'n well at ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch trethi a deddfwriaeth trethi.

*Aelodau Grŵp Cynghorol Trethi Cymru yn ystod 2019*

Andrew Evans, Geldards LLP
Frank Haskew, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Y Cynghorydd Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ben Francis, Y Ffederasiwn Busnesau Bach
Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Martin Mansfield, TUC Cymru
Ruth Marks, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
David Phillips, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Ian Price, CBI Cymru
Leighton Reed, Broomfield & Alexander Ltd, yn cynrychioli Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan

Mae rhagor o wybodaeth am Grŵp Cynghorol Trethi Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru[30].

### Cynhadledd trethi

Ym mis Gorffennaf 2019, croesawodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ail Gynhadledd flynyddol Llywodraeth Cymru ar Drethi Cymru; daeth amrywiaeth o randdeiliaid o'r byd busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector iddi. Roedd y cyflwyniadau a'r gweithdai yn

[30] https://llyw.cymru/grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi

cwmpasu: goblygiadau economi'r DU i drethi yng Nghymru, y potensial y gwelir rhagor o ddatganoli o ran trethi, diwygio trethi lleol, gweinyddu trethi – gan gynnwys dull gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru, effeithiau ymddygiadol Treth Incwm a'r cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r syniadau treth newydd ar gyfer tir gwag a deunydd plastig untro.

**Gweithgarwch ymgysylltu Awdurdod Cyllid Cymru**

Mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi datblygu *Ein Dull o Weithredu* er mwyn egluro sut yr hoffai fynd ati i gydweithio â chynrychiolwyr, sefydliadau partner, trethdalwyr a'r cyhoedd er mwyn helpu pobl i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir.

Fel rhan o *Ein Dull o Weithredu*, mae'r Awdurdod yn ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu parhaus, dwyffordd â rhanddeiliaid. Mae'r gweithgarwch hwn yn cynnwys cynnal fforymau trethi ledled Cymru er mwyn cynnig cymorth, gwrando ar adborth a phrofi syniadau ynghylch newidiadau posibl i wasanaethau. Mae'r sesiynau, a gynhelir ar ffurf gweithdai, yn cynnig help a chyngor ymarferol – er enghraifft, i gyfreithwyr a thrawsgludwyr sy'n llenwi ffurflenni treth sy'n ymwneud â thrafodiadau tir. Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal digwyddiadau gyda Chymdeithasau Cyfreithwyr lleol ac yn rhedeg ei weminarau ei hun. Er mwyn cefnogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi, mae tîm gweithrediadau'r Awdurdod yn rhoi cymorth uniongyrchol i'w helpu i ffeilio a thalu treth gwarediadau tirlenwi.

Mae'r Awdurdod hefyd yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol ar ei dudalennau gwe (llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru) drwy lwyfan LLYW.CYMRU Llywodraeth Cymru. Mae'r llwyfan hwn yn cynnal system dreth ddigidol yr Awdurdod yn ogystal â gwybodaeth, gan gynnwys canllawiau technegol ac adroddiadau corfforaethol. Mae'r Awdurdod yn defnyddio ffyrdd eraill o gyfathrebu i ymgysylltu â'i gynulleidfaoedd, gan gynnwys ffrydiau Twitter (@ACCtrydar ac @WRAtweet), proffil LinkedIn dwyieithog ac e-gylchlythyr sy'n rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch corfforaethol.

Mae adborth wrth wraidd y gwaith a wna'r Awdurdod – er enghraifft, mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn llywio newidiadau i wasanaethau. Defnyddir arolygon yn bennaf i gasglu adborth ar draws nifer o sianeli, gan gynnwys tudalennau gwe, ffurflenni ar-lein a thrwy dîm y ddesg gymorth.

**Ffyrdd eraill o gadw mewn cysylltiad**

Mae Trysorlys Cymru yn gweithio gyda sefydliadau yng Nghymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu polisi trethi a rhaeadru cynnwys i aelodau a rhwydweithiau. Os hoffech gael cyfraniad gan Drysorlys Cymru ar unrhyw agwedd ar ddatganoli cyllidol, anfonwch e-bost i: TrysorlysCymru@llyw.cymru

Caiff datganoli trethi yng Nghymru ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gyfrifon Twitter Trysorlys Cymru @TrysorlysCymru ac @WelshTreasury, a thrwy'r hashnodau #TrethiCymru #WelshTaxes.

Mae tudalennau Trysorlys Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru yn cynnig rhagor o wybodaeth am ddatganoli trethi yng Nghymru, gan gynnwys cyhoeddiadau i'w darllen neu eu lawrlwytho – cyhoeddiadau ffurfiol yn ogystal â ffeithlenni a thaflenni:
llyw.cymru/trethi-cymru

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys ffeithluniau, cardiau Twitter a Doopoll i gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gellir dod o hyd i fideo sy'n darparu gwybodaeth am drethi a gwariant yng Nghymru ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru[31].

[31] https://www.youtube.com/watch?v=lzRjhLyZRko

## Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganoli trethi i Gymru ar y rhyngrwyd.

**Cefndir**

*Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham)*

Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn ystyried y dull ariannu yng Nghymru a'r modd y gellid ei wella, gan gynnwys yr achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca. Cyhoeddodd y Comisiwn ddau adroddiad gydag argymhellion (2009 a 2010). Mae'r rhain, ynghyd â deunydd arall a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, i'w cael yma:
https://llyw.cymru/trethi-cymru

*Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk)*

Gofynnwyd i Gomisiwn Llywodraeth y DU ystyried trefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru. Rhoddodd ei adroddiad cyntaf (2012) sylw i'r achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca, yn ogystal â newidiadau sefydliadol cysylltiedig:
https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075134/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy/

**Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol**

*Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016*

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar waith ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted

Ymgynghoriad sydd wedi dod i ben, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion, a gynhaliwyd cyn mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth trethi:
https://llyw.cymru/casglu-rheoli-trethi-datganoledig-yng-nghymru

*Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017*

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno Treth Trafodiadau Tir o fis Ebrill 2018, ac yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi trethi datganoledig:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/contents

Ymgynghoriad sydd wedi dod i ben, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion, a gynhaliwyd cyn mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth trethi:
https://llyw.cymru/datganoli-trethi-yng-nghymru-treth-trafodiadau-tir

*Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017*

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi o fis Ebrill 2018:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/contents/enacted

Ymgynghoriad sydd wedi dod i ben, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion, a gynhaliwyd cyn mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth trethi:
https://llyw.cymru/datblygu-treth-gwarediadau-tirlenwi

*Fframwaith polisi trethi, cynlluniau gwaith ac adroddiadau Llywodraeth Cymru*

Disgrifir dull polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threthi yng Nghymru yn y *Fframwaith Polisi Trethi*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Mae'r cynlluniau gwaith blynyddol ar gyfer 2017, 2018 a 2019, ynghyd ag adroddiadau mis Hydref 2017 a mis Hydref 2018, yn disgrifio'r gwaith dadansoddi, y canfyddiadau a'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg: https://llyw.cymru/trethi-cymru

**Llywodraeth a Senedd y DU**

*Deddf Cymru 2014*

Deddfwriaeth y DU yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

*Papur Gorchymyn 'Atebolrwydd a grymuso ariannol'*

Cafodd rhai agweddau ar y trefniadau ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca (er enghraifft y dyddiadau targed, mynediad cynnar at fenthyca a'r broses o greu trethi datganoledig newydd) eu hegluro ym Mhapur Gorchymyn Llywodraeth y DU, Bil Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014:
https://www.gov.uk/government/publications/wales-bill

*Papur Gorchymyn, 'Pwerau at bwrpas: tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru'*

Roedd y papur hwn, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn ymrwymo Llywodraeth y DU i gyflwyno lefel waelodol o gyllid o ran y cyllid cymharol y mae'n ei roi i Lywodraeth Cymru; i ystyried yr achos dros ddatganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad mewn perthynas â'r dreth teithwyr awyr, ynghyd â'r opsiynau ar gyfer gwneud hynny; ac i alluogi Llywodraeth Cymru i ddyroddi bondiau:
https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

*Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru*

Mae'r fframwaith hwn, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2016, yn disgrifio'r trefniadau cyllido i gefnogi'r broses o weithredu'r darpariaethau cyllidol yn Neddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017.
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cytundeb-ar-fframwaith-cyllidol-llywodraeth-cymru.pdf

*Deddf Cymru 2017*

Cafodd Deddf Cymru 2017, a oedd yn dileu'r gofyniad am refferendwm ar Gyfraddau Treth Incwm Cymru, ac yn cynyddu'r terfyn benthyca cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

## Atodiad 4: Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| GOWA 2006 | Deddf Llywodraeth Cymru 2006 |
| CThEM | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| TGT | Treth Gwarediadau Tirlenwi |
| TTT | Treth Trafodiadau Tir |
| TWE | Talu Wrth Ennill |